**EITEM AR YR AGENDA: 10**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**22ain Medi 2008**

## Cynllun Iaith Gymraeg a'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol

**Adroddiad gan Colin Hanks**
**Deputy Chief Fire Officer**

## Diben yr adroddiad

**1.** I hysbysu aelodau o'r datblygiadau newydd a'r cynnydd yn yr hyrwyddiad a'r defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## Cyflwyniad

**2.** Mae Cynllun Iaith Gymraeg Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 2006-09 yn datgan sut fydd yr Awdurdod yn cadw at yr egwyddor y bydd yn trin yr iaith Gymraeg a Saesneg yn gyfartal yn ei fusnes cyhoeddus yng Nghymru, ac o'r herwydd, yn anelu i drosglwyddo gwasanaeth sydd o'r un safon ac ansawdd uchel yn y ddwy iaith.

Mae'n bwriadu:

- Cynnig dewis iaith wirioneddol i'r cyhoedd
- Cydnabod fod defnyddwyr gwasanaeth yn gallu mynegi eu barnau a'u hanghenion yn well yn eu hiaith ddewisol
- Cydnabod fod cynnig dewis iaith yn fater o ymarfer da, nid consesiwn.

Mae'r Cynllun wedi cael ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac yn cael ei

adolygu'n rheolaidd.
Mae'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol yn ofyniad statudol i ddarparu modd o ymateb sy'n briodol i ymrwymiad y Gwasanaeth sydd wedi ei gynnwys yn y Cynllun Iaith Gymraeg. Mae'r Strategaeth yn helpu i fynd â'r Cynllun Iaith Gymraeg gam ymhellach drwy ddarparu rhwydwaith mewnol strategol, fydd yn cael ei weithredu yn y dyfodol.

Yn hanfodol, mae hyn yn golygu staffio'r Gwasanaeth yn unol â'r Cynllun Iaith Gymraeg er mwyn galluogi'r ddarpariaeth o wasanaethau o ansawdd, cyfleuster ac ehangder cyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'n golygu bodloni anghenion y gwasanaeth lle mae prinder o siaradwyr Cymraeg o fewn y gweithlu, drwy fabwysiadu a gweithredu'r Strategaeth hon.

**Cefndir**

**3.** Manteision mabwysiadu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru fydd:

- Bodloni Fframwaith Cenedlaethol Cymru i'r Gwasanaeth Tân ac Achub 2008-2001 sy'n nodi y dylai gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru ddarparu gwasanaeth dwyieithog sy'n cydnabod ac yn adlewyrchu amrywiaeth yn eu cymunedau.

- Darparu dull o gynllunio o flaen llaw i gaffael, dosbarthu a datblygu'r Cynllun Iaith Gymraeg statudol

- Bod yn ddiduedd, gwrthrychol ac effeithiol

- Cynorthwyo wrth ostwng risgiau megis y methiant i gyflawni cydraddoldeb a safonau gofal cwsmer, y methiant i ddangos empathi ac adnabod anghenion y cwsmer, cwynion ac anfodlonrwydd.

**4.** Wrth baratoi'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol, mae Gwasanaeth

Tân ac Achub Gogledd Cymru yn mabwysiadu'r amcanion argymhellwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n golygu archwilio gofynion archwilio ieithyddol mannau gwaith a swyddi, cymharu anghenion sgiliau gydag adnoddau sgil presennol a chau'r bwlch rhwng y ddau, yn ogystal â threfniadau priodol i fonitro adrodd ar weithrediad y strategaeth.

**5.** Mae archwiliad o ofynion dwyieithog mannau gwaith a swyddi o fewn y Gwasanaeth wedi cael ei wneud gan Cwmni Iaith sy'n adnabod pa rolau o fewn y Gwasanaeth a ddylai fod yn Cymraeg hanfodol. Yn dilyn hyn, mae'r Gwasanaeth wedi aseinio cymwyseddau Lefel 1-5 i bob math o swydd, gan ddarparu gwell dealltwriaeth o'r safon o Gymraeg sydd ei angen.

**6.** Mae archwiliad o sgiliau dwyieithog staff presennol wedi cael ei wneud ac mae oddeutu 80% wedi dynodi'r lefel o Gymraeg sydd ganddynt. Yn y dyfodol, bydd y wybodaeth yma'n un o ofynion y broses Adolygiad Datblygiad Unigol staff.

**Gwybodaeth**

**7.** Mae'r Gwasanaeth yn cymharu anghenion sgil swyddi gyda'r adnoddau sgil presennol i ganfod pa waith sydd ei angen i gau'r bwlch.

Y nod yw cau'r bwlch yn raddol, gan gymryd persbectif tymor hir drwy sefydlu ymarferion sydd wedi eu diffinio'n dda wrth hyfforddi a chefnogi staff, recriwtio, ad-drefnu ac adleoli staff. Bydd y gwaith yn cynnwys:

- Cynyddu'r nifer o staff sy'n gallu siarad neu ysgrifennu Cymraeg yn hyderus a'u hannog i ddefnyddio eu sgiliau'n amlach. Mae aelod o staff ar secondiad yn y Pencadlys i gyflwyno'r hyfforddiant ymwybyddiaeth ieithyddol.

- O Ionawr 2009, bydd angen i bob aelod newydd o staff

feddu ar y gallu i ddangos cwrteisi ieithyddol sylfaenol (Lefel 1) cyn ymuno â'r Gwasanaeth.

- O Ionawr 2010, bydd holl staff newydd yn cael cyfnod penodol o amser ar ôl cael eu hapwyntio i gyflawni Lefel 2 (sy'n golygu 5 diwrnod o hyfforddiant ac ail gryno ddisg hyfforddiant).

- Anogir staff presennol i gyflawni Lefel 1 ar sail wirfoddol fel rhan o'r cwrs ymwybyddiaeth. Bydd staff presennol sy'n cael cysylltiad uniongyrchol gyda'r cyhoedd yn cael eu hannog i gyflawni Lefel 4/5 drwy hyfforddiant dwys.

- O fis Ionawr 2010, bydd staff sy'n edrych am ddyrchafiad o fewn y Gwasanaeth yn gorfod pasio Lefel 2.

- Bydd cyrsiau hyfforddi yn galluogi staff i ddysgu neu wella eu Cymraeg. Bydd Coleg Llysfasi yn darparu cyrsiau hyfforddiant Lefel 1 a 2. Bydd cryno ddisgiau yn cyd-fynd gyda'r rhain (bydd y profion yn cael eu hasesu'n annibynnol gan Goleg Llysfasi). Mae'r profion wedi eu cysylltu gydag achrediad cenedlaethol.

- Bydd y Strategaeth Sgiliau Ieithyddol yn cael ei ymgorffori ym mholisi'r Gwasanaseth ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth - sy'n cyfeirio at y Saith Edefyn o Amrywiaeth yng Nghymru sy'n cynnwys yr iaith Gymraeg.

**8.** Bydd y Gwasanaeth yn adolygu Strategaeth yr Iaith Gymraeg yn rheolaidd, gan weithio gyda dangosyddion Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Bydd y gwaith yn ymwneud â sicrhau cofnod cywir o'r nifer a'r canran o staff sy'n cael cysylltiad uniongyrchol gyda'r cyhoedd a'r lefel o Gymraeg sydd ei angen yn y swyddi hyn, y canran o staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ieithyddol, yn ogystal â gallu adnabod staff sy'n gallu siarad Cymraeg - yn ôl adran, graddfa'r swydd a'r man gwaith.

**9.** Bydd y Strategaeth Sgiliau Ieithyddol yn cysylltu gyda'r canlynol;

- Gweithdrefnau recriwtio ac apwyntio
- 'Buddsoddi mewn Pobl' a Chynlluniau Datblygu Staff
- Strategaeth Hyfforddi
- Cynllun Corfforaethol y Gwasanaeth
- Y rhaglen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Y drefn Gofal Cwsmer

Bydd ymgynghoriad mewnol yn egluro fod y Strategaeth yn cael ei mabwysiadu i sicrhau fod y Gwasanaeth yn cydymffurfio gyda Deddf yr Iaith Gymraeg a bod gallu yn y Gymraeg yn cael ei gydnabod fel sgil.

**10.** Gobeithir bydd y Strategaeth Sgiliau Ieithyddol yn fuddiol i staff drwy:

- Drin sgiliau ieithyddol yn yr un ffordd yn union ag unrhyw sgiliau eraill sydd yn angenrheidiol, ddymunol neu fanteisiol ar gyfer swydd.
- Darparu modd o sicrhau cysondeb ymagwedd wrth bennu gofynion ieithyddol swydd
- Osod pwyslais ar hyfforddi, datblygu a chefnogi staff i wella sgiliau staff ac ysfa gystadleuol o fewn y farchnad lafar ehangach.

## 11. Casgliad

Mae'r Strategaeth yma'n gofyn am ymrwymiad ar draws y Gwasanaeth ac mae ganddo oblygiadau fydd yn cyrraedd yn bell iawn. Mae'r pwyslais ar gynllunio o flaen llaw ac i gaffael y sgiliau angenrheidiol dros gyfnod o amser - nid newid ar unwaith. Y bwriad fydd i wella'r gwasanaeth i'r cyhoedd a lefel sgil staff, dros gyfnod o dair i bum mlynedd.

## Argymhelliad

Fod aelodau yn nodi ac yn cefnogi’r strategaeth.